Annwyl Gynghorydd, Elwyn Jones

Diolch ichi am eich llythyr sy'n tynnu ein sylw at y cynigion a wnaed mewn cyfarfod o Gyngor Gwynedd. Ymddiheuraf am yr oedi cyn ymateb i chi.

Gwerthfawrogwn y pryderon a godwyd am ein gwasanaethau trên yng Ngwynedd. Rydym yn ymwybodol o'r effaith andwyol y mae'r oedi parhaus wedi'i gael ar brofiad cwsmeriaid a hoffwn eich sicrhau bod gweithredu gwasanaeth trên sy'n brydlon ac â digon o le ar bob llwybr ac sydd hefyd yn cynnig gwerth da am bris tocyn yn bwysig iawn i ni. Rydym yn adolygu a monitro'n barhaus yr hyn sy'n tarfu ar ein trenau i'n helpu i leihau'r achosion o oedi a chanslo a hefyd i sicrhau bod unrhyw broblem yn cael sylw.

Mae ein timau cynllunio a gweithredu trenau'n gweithio'n eithriadol o galed i sicrhau bod cymaint â phosib o le ar gael a phan fo digwyddiadau mawr, megis gemau rygbi rhyngwladol, yn cael eu cynnal byddwn yn darparu mwy o gerbydau trên ar gymaint o wasanaethau â phosib i ddiwallu'r cynnydd yn y galw. Fodd bynnag, dim ond nifer cyfyngedig o gerbydau trên sydd gennym i weithredu'r cannoedd o wasanaethau yr ydym yn eu rhedeg yn ddyddiol ar draws ein rhwydwaith. Gyda hyn mewn golwg, gall ychwanegu un cerbyd trên mewn un ardal effeithio'n uniongyrchol ar ardal arall ac mae'n rhaid i ni gydbwyso hyn yn ofalus. Oherwydd cyfyngiadau gweithredol, ni all pob trên yn ein fflyd weithredu gwasanaeth ar bob llwybr, ac mae hyn yn ffactor arall sy'n effeithio ar sut yr ydym yn dynodi adnoddau. Efallai eich bod eisoes yn ymwybodol ein bod wedi buddsoddi mewn trenau newydd i gynyddu lle ac i helpu i ostwng amseroedd teithio i'n teithwyr gan gynnwys y llwybr rhwng Bangor a Chaerdydd. Rydym hefyd yn gweithio ar gynlluniau i ychwanegu mwy o wasanaethau wrth ddiweddaru'n hamserlenni yn y dyfodol a chyflwyno trenau newydd sbon.

Mae'n ddrwg gennyf glywed fod yna bryder ynghylch safon y gwasanaeth cwsmer ac argaeledd rhai mathau o docynnau. Efallai mai buddiol fyddai i mi egluro mai dim ond nifer cyfyngedig o fathau penodol o docynnau megis tocynnau Ymlaen Llaw (*Advance*) sydd ar gael. Caiff y tocynnau hyn eu rhyddhau fesul bwndel gyda'r rhai rhataf yn cael eu gwerthu'n gyntaf ac mae nifer cyfyngedig o docynnau ym mhob grŵp pris. Cyn gynted ag y gwerthir y bwndel rhataf o docynnau, mae'r bwndel nesaf o docynnau yn cael ei ryddhau ac yn y blaen. Mae prisiau'r tocynnau'n codi nes iddynt gyrraedd pris tocyn sengl safonol a'u bod i gyd wedi'u gwerthu. Fodd bynnag, byddwn yn cymryd camau priodol i wella safon ein gwasanaeth cwsmer gan ein bod yn disgwyl i'n staff fod o gymorth pob amser.

Gobeithiaf fy mod wedi medru rhoi sylw i'r pryderon a godwyd am wasanaethau Trafnidiaeth Cymru a hoffwn eich sicrhau ein bod wedi ymrwymo i wella gwasanaethau trên yng Ngwynedd. Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw bryderon neu unrhyw beth arall i'w ychwanegu nad wyf wedi'i ystyried eisoes.

Yn gywir,

**Gail Jones**

**Teitl Swydd | Job Title: Rheolwr Rhanddeiliaid (Canolbarth a Gogledd Cymru)**

**Trafnidiaeth Cymru | Transport for Wales, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 4TH**

**RHIF FFÔN: 07956 709 882**